Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
DYDDIAD:	**30 Tachwedd 2023**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	Y diweddaraf am Ffrydiau Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi adborth am waith y ffrydiau gwaith**
RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:	
Cefndir:	

Sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu pedair ffrwd waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o amrywiol feysydd, darparu hyfforddiant, archwilio pynciau yn fanylach a nodi agweddau yr oedd angen craffu arnynt ymhellach yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2022 fel rhan o broses gynllunio'r flaenraglen waith. Cafodd y ffrydiau gwaith eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2022. Mae aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu wedi'u rhannu rhwng y ffrydiau gwaith ac mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i bob un o'r tair ffrwd waith gan gyfrannu atynt.

Sicrhau bod y blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.	**Sicrhau tegwch i bob disgybl**	**Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon i fodloni ein blaenoriaethau.**
Y Cynghorwyr: Endaf Edwards Chris James Euros Davies Rhodri Davies Elizabeth Evans	Y Cynghorwyr: Endaf Edwards Chris James Paul Hinge Marc Davies Amanda Edwards Mark Strong Ann Bowen Morgan	Y Cynghorwyr: Endaf Edwards Chris James Meirion Davies Eryl Evans Gareth Lloyd

Mae holl Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd ffrwd gwaith presennol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Sicrhau Tegwch i Bob Disgybl

Fe wnaeth 'Sicrhau Tegwch i Bob Disgybl' gwrdd ar yr 20fed Hydref yng Nghwrtnewydd. Gwnaeth y ffrwd gwaith dderbyn cyflwyniad gan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ar gwricwlwm amgen 'Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith' sef y cwricwlwm amgen sy'n cael ei ddarparu i blant sydd wedi ymddieithrio o addysg yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bwriad darparu'r cwricwlwm amgen hwn yw i sicrhau bod dysgwyr bregus / â risg uchel yn cael:

- Mynediad at Gwricwlwm Amgen pwrpasol i ddiwallu eu anghenion
- Meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at yr economi leol
- Y cyfle gorau i gyrraedd a chyflawni eu potensial llawn
- Gwella eu lefel cyrhaeddiad a phresenoldeb hwy
- Datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad
- Gadael yr ysgol gyda chymwysterau perthnasol

Mae 102 o ddisgyblion bellach wedi'u cofrestru i'r ddarpariaeth hwn. Mae'r Cwricwlwm Amgen yn cael ei ariannu ar hyn o bryd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n dod i ben 31ain Rhagfyr 2024.

Mae disgyblion blynyddoedd 9, 10 ac 11 sydd â risg o ddatgysylltu wrth addysg yn gymwys fynychu'r Cwricwlwm Amgen. Mae'r garfan yn cael ei chydnabod trwy sgoriau RAG/VAP, atgyfeiriad drwy'r ysgol, gwasanaethau mewnol eraill neu asiantaethau allanol

Gall disgyblion ennill y cymwysterau canlynol. Mae holl Dystysgrifau Rhagarweiniol BTEC Lefel 1 yn hafal i 2 TGAU (Gradd D-G).

Cyrsiau'r Darparwyr Allanol/ External Provider Courses	
Darparwyr/Provider	Cymhwyster/Qualification
Ieuenctid Cambria Youth	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Sport
Engineering (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Engineering
Hairdressing (HCT)	City & Guilds Level 1 Certificate in an Introduction to the Hair and Beauty Sector
Plumbing (HCT)	City & Guilds 6219 Level 1 Award/Certificate
Motor Mechanics (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Transport and Vehicle
Carpentry (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Construction
Construction (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Construction
Childcare (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Vocational Studies
Land-Based Studies (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Land-Based Studies
Art & Design (HCT)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Art and Design
Bwyd & Bywyd	BTEC Level 2 Award in Home Cooking Skills (½ GCSE B grade) & BTEC Level 1 Introductory Certificate in Hospitality and Tourism
Digital Media (Dysgu Bro)	BTEC Level 1 Introductory Certificate in Digital Media

Roedd 3 cwrs 'Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith' yn cael eu cyflwyno yn ystod yr ymweliad.

Cafodd yr Aelodau weld y cyfleusterau yng Nghwrtnewydd ac fe gafodd yr Aelodau gyfle i arsylwi'r dysgu a siarad â disgyblion.

Hefyd, rhannwyd clipiau fideo â'r grŵp yn ystod yr ymweliad. Clipiau fideo oedd rhain a gafodd eu creu gan Theatr Felinfach a'r Gwasanaeth Cerdd fel tystiolaeth o'r gwaith a wnaed gyda disgyblion Canolfan y Môr, HRC Penglais, LRC Penglais a Chanolfan y Bont.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y cyfle i ymweld â Chwrtnewydd

Mae gweddill cyfarfodydd y Ffrwd Gwaith wedi'u trefnu fel a ganlyn:

Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol	**Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â'n blaenoriaethau**
Ensure that local and national priorities are delivered effectively	**Ensure an effective and efficient infrastructure to meet our priorities**
Ionawr 2024 Ysgol Henry Richards / Ysgol Y Dderi	Rhagfyr 2023 Ysgol Uwchradd Aberteifi

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os 'nac oes', nodwch pam

Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:

Argymhellion:

I nodi gwaith y ffrydiau gwaith

Rhesymau dros yr Argymhellion:

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Safle:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	10/11/23
Acronymau:	